YSGOL PENCAE
Highfields, Gilian Road
Llandaf, Caerdydd
CF5 2QA
Ffôn: 029 20563851
Ebost: ysgolpencae@cardiff.gov.uk

@ pencae2
Dilynwch ni ar Trydar
Follow us on Twitter

Cylchlythyr Rhif 39 /*Newsletter No 39*
19.07.19

Annwyl rieni,

Rwy'n ysgrifennu'r llythyr hwn yn gymysg oll o deimladau ond yn hynod falch o fod wedi cael bod yn rhan o deulu Ysgol Pencae am gyfnod o ddwy flynedd ar bymtheg. Rydym wedi cyrraedd diwedd blwyddyn academaidd arall ynghyd ynghyd â diwedd cyfnod.

Braint oedd derbyn swydd fel Dirprwy Bennaeth yn yr ysgol nôl ym mis Medi 2002. Â minnau'n athro ifanc a brwdfrydig, roedd yn braf cydweithio gyda Mrs Eleri Jones, pennaeth profiadol yr ysgol, er mwyn datblygu'r ysgol ymhellach. Yn ddiweddarach, bûm yn ffodus i gael fy rhyddhau yn 2004 i fod yn uwch-ddarlithydd y Gymraeg a mentor darpar athrawon yn UWIC am secondiad o flwyddyn; gan elwa'n fawr o'r profiad gwerthfawr hwn. Dychwelyd i'r ysgol oedd fy mwriad gan gwblhau'r cymhwyster CPCP yn 2006. Cefais fy mhenodi yn bennaeth yr ysgol ym Medi 2008 ac mae'r unarddeg mlynedd a ddilynodd wedi hedfan - anhygoel!

Mae gan Ysgol Pencae rinweddau unigryw - rhinweddau yr wyf yn falch iawn o fod wedi bod ynghlwm â hwy. Mae'r ymdeimlad o berthyn i ysgol fechan cyfrwng Cymraeg o fewn y brif ddinas yn sicr yn rhinwedd yr oeddwn am ei meithrin a'i datblygu ac rwy'n gobeithio, trwy amryfal a dirgel ffyrdd, fy mod wedi llwyddo i gyflawni hyn.

Mae'r addysg a'r lles orau posibl wedi bod yn flaenoriaeth o fewn fy ngweledigaeth bob tro. Er mwyn cyflawni hyn, credaf fod cyflwyno amrywiaeth eang o brofiadau cyfannol a chyfoethog yn allweddol i ddatblygiad pob disgybl. Mae'r profiadau hyn, gan gynnwys y caneuon actol a'r cyflwyniadau dramatig niferus ynghyd ag ymweliadau addysgol diddorol, wedi bod yn greiddiol i fy

ngweledigaeth. Hyderaf fy mod wedi cyfrannu rhywfaint, rhywsut at gyfnod cynnar y disgyblion fel oedolion ifanc yn yr ysgol.

Nid pennaeth yn unig sy'n arwain ysgol ond yn hytrach yr holl dîm - dyma sydd wedi gwneud yr un ar ddeg mlynedd diwethaf yn rhai mor bleserus! Mae disgyblion Ysgol Pencae wastad yn awyddus i arbrofi ac yn awchus i lwyddo! Rwy'n diolch iddyn nhw am eu brwdfrydedd cynhenid ac am y fraint o gael bod yn rhan o'u profiadau cynnar yn yr ysgol. Mae pob aelod o staff yr ysgol yn hynod, hynod weithgar ac ymroddedig. Mae'r nodweddion hyn amdanynt i'w canmol yn fawr a thasg bleserus oedd eu harwain i ddatblygu'r ysgol ymhellach. Rwy'n siŵr y byddaf yn gweld eisiau eu proffesiynoldeb diwyd ynghyd â'u cwmnïaeth hwyliog. Mae'r Corff Llywodraethol wedi bod yn gefn i fi bob tro ac wedi fy nghefnogi gyda phob penderfyniad. Diolchaf iddyn nhw am eu hamser prin tra'n gwirfoddoli i gydarwain yr ysgol gyda mi. Mae'r berthynas gyda'r rhieni, sy'n rhinwedd holl bwysig yn fy marn i, wedi bod yn gadarn trwy gydol y cyfnod hwn. Rwyf wedi mwynhau'r berthynas ragweithiol hon mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ac rwy'n diolch i chi gyd, ynghyd â'r gymuned ehangach, am eich cefnogaeth ddiflino!

Hoffwn ddiolch o waelod calon i Miss Siwan Dafydd am arwain yr ysgol yn hyderus a hynod lwyddiannus yn fy absenoldeb - mae fy nyled yn fawr iddi! Diolch hefyd i Mrs Bethan Parry am ymgymryd â'r rôl Dirprwy Bennaeth yn frwdfrydig a diffwdan bob tro. Diolch hefyd i aelodau'r Corff Llywodraethol am fy rhyddhau am gyfnod byr i ehangu fy ngorwelion ymhellach tra'n gweithio i Estyn. Cafodd y cyfnod byr hwn ei ymestyn yn ddiarwybod i chi a minnau!

Hyderaf bydd fy nghyfnod hynod, hynod hapus yn Ysgol Pencae yn aros â mi am byth! Mae gan yr ysgol le cynnes a gwerthfawr iawn yn fy nghalon.

Hir oes i'r ysgol dan arweiniad Mr Richard Carbis a phob dymuniad da iddo ef a'r tîm ar gyfer y dyfodol. Ymdrech a Lwydda!

Dymuniadau gorau i chi gyd,

R Richard Thomas

Dear Parents,

I write this letter with mixed emotions but with the utmost pride that, for the last seventeen tears, I have been privileged enough to be part of the Pencae family. We have reached an end of another academic year but also an end of an era.

It was a privilege to receive a job as a deputy head teacher in the school back in September, 2002. Then, I was a young teacher working alongside Mrs Eleri Jones, an experienced head teacher, to develop the school further. I was lucky enough in 2004, to be granted a year secondment where I worked in UWIC as a Welsh lecturer and teacher training mentor; I learnt a lot from this experience. I returned to school where I completed my NPQH in 2006. In September 2008, I was appointed the head teacher of Ysgol Pencae and the past eleven years have flown by – amazing!

Ysgol Pencae has unique characteristics – characteristics I am extremely proud to be associated with them. The feeling of being part of a small Welsh medium school in the capital city was something I wanted to nurture and develop and I hope through various ways, that I succeeded in accomplishing this.

At the forefront of my vision was providing the best education to our pupils in a nurturing environment that ensured that our pupils' wellbeing and happiness was key. In order to achieve this, I believed in providing various enriching experiences that influenced our pupils' development. Experiences such as the Cân Actol and Cyflwyniad Dramatig competitions along with the various educational visits have been central to my vision. I hope that I have contributed in one way or another to your child's early journey, providing them with a strong foundation to be confident, healthy and ambitious young adults.

Leading a school is not a one man job, it is a cumulitive effort from a whole team – this is the element that has made the last eleven years so pleasureable! The pupils of Ysgol Pencae are always eager to try new things and are keen to succeed! I thank them for their endless enthusiasm and for the privilege of being part of their early experiences at the school. Every single

member of the school staff are extremely consientious and give their time gladly. I can only praise these characteristics and share how much I've enjoyed working alongside such a close team and leading them to develop the school further. I am certain that I will miss their professionalism and their company. The Governing Body have been a great support to me and they have supported me with every decision I have made. I thank them for their time and their willingness to walk alonside me as we lead the school to success. My relationship with the parents has been a strong feature of the school. I have valued the relationship that we have formed, in a formal and informal capasity, and I would like to thank you for working with me in a strong partnership. I would also like to thank the wider community for their endless support.

I would also like to thank Miss Siwan Dafydd for leading the school confidently and successfully this year – I am indebted to her! Also, I thank Mrs Bethan Parry for taking on the role of Deputy head so enthusiastically in my absence. Thanks to the Governing Body for allowing my secondment to Estyn in order for me to develop further professionally. Unbeknown to myself and to you, this period was extended!

I am confident that my extremely happy time in Ysgol Pencae will stay with me for life! The school has a precious and warm place in my heart.

I wish Mr Richard Carbis well in his new role and I hope the school and the whole team will continue to flourish for years to come. Ymdrech a lwydda!

Kind regards to you all,

R Richard Thomas

Sioe Charlie a'r Ffatri Siocled / *Charlie and the Chocolate Factory Show*

Llongyfarchiadau anferthol i staff a disgyblion Cyfnod Allweddol 2 am lwyddiant ysgubol Charlie a'r Ffatri Siocled. Roedd wir yn bleser gweld hyder a mwynhad y disgyblion wrth berfformio. Arbennig!

The warmest congratulations to the staff and pupils of Key Stage 2 on their wonderful performance of Charlie and the Chocolate Factory. It was a pleasure to see the pupils perform with such confidence and enjoyment! Excellent!

Gwobr Iechyd y gweithle bach / *Small workplace health award*

Braint yw cyhoeddi ein bod wedi ennill gwobr efydd Iechyd yn y Gweithle Bach. Diolch i Mrs Haf Hayes am ei gwaith caled wrth gydlynu'r gwaith casglu o ran gweithgarwch yr ysgol i ofalu am iechyd a lles staff.

We would like to announce that we have received the bronze Small Workplace Health Award. Thank you to Mrs Hayes for co-ordinating the school's work in looking after the health and wellbeing of the staff.

GWOBR IECHYD Y GWEITHLE BACH
SMALL WORKPLACE HEALTH AWARD
EFYDD · BRONZE
Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales

Llun ysgol / *School Picture*

Pe ddymunech brynu llun ysgol gyfan mae modd gwneud nawr trwy'r wefan Colorfoto: www.clickfoto.co.uk.

Côd Mynediad: X44QY8VX.

If you wish to buy a whole school picture, you can do so through the Colorfoto website: www.clickfoto.co.uk.

Access code: *X44QY8VX.*

Eco-Schools Eco-Sgolion
PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD
CHALLENGE AWARD nace 2019–2022
GWOBR IECHYD Y GWEITHLE BACH SMALL WORKPLACE HEALTH AWARD EFYDD · BRONZE Cymru Iach ar Waith Healthy Working Wales

TOP TIP Diogelwch y We Gorffennaf *JULY's Internet Safety TOP TIP*	Targed Teulu Siarter Iaith *Siarter Iaith Family Target*
Cofiwch bod unrhyw lun rydych yn postio yn gyhoeddus ac yno am byth!	Speak a little Welsh every day during the Summer. **Gwrandewch ar gerddoriaeth**: Bryn Fôn (♫ Y Gân Gymraeg ♫)
Remember that every photo you share online is public and there for ever!	*Siaradwch ychydig o Gyrmaeg bob dydd yn ystod yr haf.* ***Listen to the band:*** Bryn Fôn (♫ Y Gân Gymraeg ♫)

Dyddiadau pwysig / *Important dates*

Dyddiad / Date	Gweithgaredd / *Activity*
02.09.19	HMS / *Inset Day*
03.09.19	Diwrnod cyntaf tymor yr Hydref i'r disgyblion *First day of the Autumn term for the pupils*
4.10.19	Noson Deulu CRhA – Twmpath *PTA Family Night – Twmpath (Welsh Folk Dancing)*

R R Thomas
Pennaeth

Neges gan y GRaA / Note from the PTA

Nodyn gan CRhA Ysgol Pencae *Sefydliad elusennol corfforedig (SEC) 1175972* **Dilynwch ni @pencaepta**	**A note from Ysgol Pencae PTA** *A charitable incorporated organisation (CIO) 1175972* **Follow us @pencaepta**
Cofrestrwch - na oedwch! Mae'r GRhA yn defnyddio Classlist i gyfathrebu ac i drefnu digwyddiadau. A fyddech cystal â chofrestru â Classlist (os nad ydych wedi gwneud eisoes)? Gallwch naill ai lawrlwytho'r app ar eich ffôn (sydd ar gael ar Playstore neu Apple store) neu ewch i: https://start.classlist.com/#/ a dilynwch y cyfarwyddiadau i greu eich cyfrif.	**Register for Classlist!** The PTA uses Classlist for its communications and the organisation of PTA events. Please sign up to Classlist if you haven't already done so. Either download the app onto your phone (it is available on the Playstore or the Apple store) or go to: https://start.classlist.com/#/ and then follow the instructions to set up your account.
Dull hawdd o godi arian i'r ysgol Cofiwch ddefnyddio Easyfundraising os byddwch yn prynu rhywbeth ar-lein. Ewch i https://www.easyfundraising.org.uk/causes/ysgolpencae i helpu i godi arian ar gyfer y GRhaA a'r ysgol.	**An easy way to raise money for the school** If you are buying something online, please use Easyfundraising. Use: https://www.easyfundraising.org.uk/causes/ysgolpencae to help raise valuable funds for the PTA and school.
Am roi rhodd i'r GRhA? Defnyddiwch Wonderful Dyma'r linc: Rhoi i Wonderful	**Want to donate to the PTA?** Use Wonderful You can donate via the link below: Donate to Wonderful
Parentkind **Trysorfa wybodaeth** Ydych chi eisiau cyngor neu syniadau am sut i godi arian? Dyma'r ffynhonnell i chi! https://www.parentkind.org.uk/ I gofrestru ewch i: Sut i ymuno â ParentKind	**Parentkind** **An information hub** Want advice or ideas on funding raising as a parent/carer or class rep? This is the place to look! Go to the link below: https://www.parentkind.org.uk/ Need to register? Go to: How to join ParentKind